

2016 Rhif 424 (Cy. 136)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 19, Cyffordd Llandudno i
Gyffordd 22, Hen Golwyn, Conwy)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2016**

Gwnaed 14 Mawrth 2016

Yn dod i rym 20 Mawrth 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mawrth 2016. Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 19, Cyffordd Llandudno i Gyffordd 22, Hen Golwyn, Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 20 Mawrth 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr

arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 o Gyffordd 19, Cyffordd Llandudno hyd at Gyffordd 22, Hen Golwyn ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwysio

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Mawrth 2016

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

1. Y darn o brif gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 19, Cyffordd Llandudno hyd at ganolbwynt Cyffordd 22, Hen Golwyn.

2. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 19, Cyffordd Llandudno, Cyffordd 20, Brompton Avenue a Chyffordd 21, Bae Colwyn.